**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ymchwiliad Craffu - Asedau Cymunedol

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 22 Ebrill 2024 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd S J Rice (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | C A Holley | A J Jeffery |
| S M Jones | M W Locke | C L Philpott |
| W G Thomas | | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cyng. R Francis Davies | Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Geoff Bacon | Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo |
| Tracey McNulty | Pennaeth y Gwasanaethau Diwylliannol |
| Jamie Rewbridge | Rheolwr Strategol, Partneriaethau Hamdden, Iechyd a Lles |
| Mark Wade | Cyfarwyddwr Lleoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: V A Holland

---

12 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Datganodd y Cyng. Stuart Rice a'r Cyng. Alan Jeffrey fuddiant personol yn eitem 6.

13 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

14 **Cofnodion**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2024 fel cofnod cywir.

15 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 16 Asedau Cymunedol - Gwasanaethau Diwylliannol

Diolchodd y Panel i Aelodau'r Cabinet, Robert Francis Davies, Tracey McNulty (Pennaeth y Gwasanaethau Diwylliannol) a Jamie Rewbridge (Rheolwr Strategol, Partneriaethau Hamdden, Iechyd a Lles) am ddarparu adroddiad ysgrifenedig ac am ddod i'r cyfarfod i drafod agweddau ar drosglwyddo asedau cymunedol (TAC) mewn perthynas â'r Gwasanaethau Diwylliannol. Roedd y drafodaeth yn seiliedig ar set graidd o gwestiynau a anfonwyd cyn y cyfarfod ynghylch y TAC sy'n cael eu trosglwyddo neu sydd wedi'u trosglwyddo o fewn cyfarwyddiaeth y gwasanaethau diwylliannol.

Bydd nodiadau llawn a manwl o'r sesiwn hon yn ffurfio rhan o'r adroddiad canfyddiadau y bydd y panel yn ei ystyried wrth drafod ei argymhellion a'i gasgliadau tuag at ddiwedd yr ymchwiliad.

## 17 Cynllun Prosiect

Bydd y Panel yn cwrdd y tro nesaf am 20 Mai, lle byddant yn edrych ar yr atebion a dderbyniwyd i e-bost gyda set o gwestiynau a anfonwyd i'r holl Gynghorwyr etholedig ac i Gynghorau Cymuned.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.55pm

**Cadeirydd**